| | |
|---|---|
| **CCYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | Mehefin 18, 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| **AWDUR** | Ian Jones – Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Llio Elenid Owen |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet dros Adran Gwasanaethau Corfforaethol, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

### 2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2025-26. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad diweddar, ac rwyf yn fodlon iawn gyda pherfformiad yr Adran.

### 2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

Mae Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar chwe phrosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 2023 - 2028, sef:

1. Cadw'r Budd yn Lleol
2. Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd
3. Cynllunio'r Gweithlu
4. Sicrhau Tegwch i Bawb
5. Merched Mewn Arweinyddiaeth
6. Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2025-26, ac mae Atodiad 1 yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y chwe blaenoriaeth

### 2.3 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Mae Atodiad 2 yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau'r Adran. Mae'n cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, cyd-destun a sylwadau yn esbonio perfformiad yr holl feysydd yn ystod 2025-26.

Mae gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol nifer o wahanol wasanaethau a meysydd cyfrifoldeb amrywiol. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

### 3.Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Pennaeth Cynorthwyol, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol.

### 4. Atodiadau

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd meysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor

**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol